Banc Datblygu Cymru - Cronfa Buddsoddi mewn Twristiaeth (CBTC)

Cwestiynau Cyffredin

1. **Beth yw pwrpas y gronfa?**
   - Darparu cyllid ar gyfer prosiectau Twristiaeth yng Nghymru
   - Helpu'r sector Twristiaeth i newid o fod yn ddibynnol ar arian grant i allu gweithredu trwy fenthyciadau masnachol
   - Defnyddio arian cyhoeddus mewn maes a allai gael effaith sylweddol ar yr economi.
   - Cefnogi buddsoddiadau strategol, a allai fod yn rhai sylweddol, yn ôl yr angen.

2. **Beth bydd y grant yn talu amdano?**
   - Bydd y gronfa newydd yn darparu £100,000 - £5,000,000 o gyfalaf dros dymor estynedig i fusnesau ar gyfer prosiectau cymwys. Gellir ei defnyddio naill ai i wella neu i greu asedau o ansawdd uchel yn y sector Twristiaeth.

3. **Am faint y bydd y cyllid yn para?**
   - Bydd disgwyl ichi ad-dalu'r arian cyn pen 10-15 mlynedd a gellir cynnwys seibiau talu tymhorol.

4. **Pa rannau o Gymru sy'n cael elwa?**
   - Cymru gyfan.

5. **Beth yw'r amodau ar gyfer cael arian o'r gronfa?**
   - Bydd angen i ymgeiswyr:
     - ymrwymo i gefnogi strategaeth *Ffyniant i Bawb* Llywodraeth Cymru a dangos ymrwymiad i bedwar gofyn y Contract Economaidd
     - cynnal eu busnes yng Nghymru a dangos sut y bydd y prosiect yn sbarduno twf mewn marchnadoedd hen a newydd a chreu a/neu ddiogelu swyddi
     - profi y gall y prosiect lwyddo'n ariannol a bod modd ad-dalu'r arian dros gyfnod y pecyn.
   - Os cynigir cymorth, bydd angen i ymgeiswyr ddangos sut y byddant yn bodloni un o'r Meysydd Gweithredu canlynol, fydd yn rhan o'r amod ar gyfer rhoi cefnogaeth:
     - datgarboneiddio - er mwyn i Gymru allu manteisio ar y newid ym marchnadoedd y byd yn y galw am gynnyrch, nwyddau a gwasanaethau carbon isel ac i hyn roi hwb i weddnewid ein ffyniant, iechyd a'n lles
     - arloesi, entrepreneuriaeth a phencadlys - er mwyn i fusnesau allu datblygu'u cynnyrch a'u gwasanaethau'n ddi-dor i'w galluogi i barhau i fod yn gystadleuol a chynaliadwy yn ogystal â rhoi hwb i berfformiad cyffredinol yr economi.

- allforio a masnachu - er mwyn i fusnesau allu tyfu trwy fasnachu â gweddill y DU ac allforio i farchnadoedd tramor, gan gynyddu'u cynhyrchiant a'u cryfhau i allu gwrthsefyll newidiadau yn economi'r byd
- swyddi o safon uchel, datblygu sgiliau a gwaith teg - cymdeithas deg a ffyniannus

6. **A ydw i'n gymwys?**
   - Mae pob busnes twristiaeth yn y sector preifat a'r trydydd sector yn gymwys.

7. **A yw fy mhrosiect yn gymwys?**
   - Byddwn yn ystyried helpu'ch prosiect i:
     - greu a diogelu swyddi
     - dod â manteision a thwf economaidd
     - sicrhau ansawdd ac arloesedd a chryfhau ymdeimlad o le.
   - Nod y cymorth yw cefnogi prosiectau unigryw a nodedig sy'n atgyfnerthu brand Cymru, yn adlewyrchu'r gwerthoedd craidd ac yn arbennig, yn gwireddu amcanion craidd y brand:
     - codi statws Cymru
     - synnu ac ysbrydoli
     - atgyfnerthu canfyddiadau cadarnhaol
     - gwneud pethau da
     - Yn amlwg yn cynrychioli 'Cymru'.

8. **Faint o arian y ca i ymgeisio amdano?**
   - Rhwng £100,000 a £500,000 ar gyfer prosiectau cymwys.

9. **Beth fydd yr arian yn talu amdano?**
   - Mae'r gronfa yn cynnwys cymysgedd o gyllid ad-daladwy a chyllid nad oes rhaid ei ad-dalu, gan dargedu prosiectau buddsoddi cyfalaf cymwys yn y sector twristiaeth yng Nghymru. Gall gael ei defnyddio i wella neu i greu cynnyrch o ansawdd.
   - Dyma rai o flaenoriaethau'r gronfa (nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth):
     - cynhyrchion twristiaeth arloesol o safon uchel, sy'n ychwanegu at enw da
     - gwestai moethus (estyniadau, gwelliannau a gwestai newydd)
     - atyniadau blaenllaw pob tywydd sydd ar gael gydol y flwyddyn
     - atyniadau blaenllaw
     - profiadau drwy weithgareddau arloesol
     - profiadau bwyd sy'n unigryw Gymreig sy'n canolbwyntio ar yr ymwelydd
     - cyfleusterau sba a hamdden o ansawdd uchel
     - prosiectau arloesol sy'n gysylltiedig â diwylliant neu dreftadaeth
     - tafarndai, llety gwesteion sy'n unigryw ac o ansawdd uchel
     - mannau anghyffredin i bobl aros.

10. **Beth na chaiff yr arian dalu amdano?**
    - Nid yw cyllid refeniw yn gymwys.

11. **Beth yw'r broses ymgeisio a sut mae gwneud cais?**
    - Er mwyn cael eich ystyried am gymorth y Gronfa Fuddsoddi mewn Twristiaeth, bydd angen i gais:
        - Cam 1: ymrwymo i gefnogi strategaeth *Ffyniant i Bawb* Llywodraeth Cymru a dangos ymrwymiad i bedwar gofyn y Contract Economaidd
        - Cam 2: datblygu cynnyrch twristiaeth cynaliadwy o ansawdd uchel a symbylu twf mewn marchnadoedd hen a newydd a chreu a/neu ddiogelu swyddi.
    - Mae dau gam i wneud cais. Mae'r cyntaf yn cynnwys ffurflen Datgan Diddordeb ac os bydd honno'n llwyddiannus, caiff y busnes ei wahodd i wneud cais llawn.
    - Os hoffech fwy o wybodaeth am y Gronfa, e-bostiwch CBTC@llyw.cymru neu alw 0845 010 8020.

12. **Pryd ca' i wneud cais am arian o'r Gronfa?**
    - Mae'r gronfa'n agored i ymholiadau'r cam cyntaf nawr. Os hoffech fwy o wybodaeth am y Gronfa, e-bostiwch CBTC@llyw.cymru neu alw 0845 010 8020.

13. **Beth bydd angen imi ei gyflwyno gyda'r cais?**
    - Fel rhan o'r cam cyntaf, bydd angen ichi Ddatgan Diddordeb ynghyd â chyflwyno gwybodaeth, fel copïau o gyfrifon eich cwmni a Chontract Economaidd, i brofi'ch bod yn fusnes llwyddiannus.

14. **Beth yw'r gymysgedd o grantiau a benthyciadau?**
    - Bydd y gymysgedd yn dibynnu ar asesiad o'r cais ei hun. Bydd y grant yn cynrychioli'r lefel isaf o ymyriad sydd ei hangen er mwyn gwneud y cynnig yn hyfyw'n fasnachol. Y norm fodd bynnag fydd cynnig 80% o fenthyciad a 20% o grant.

15. **Sut caiff fy nghais ei asesu?**
    - Caiff pob cais ei asesu yn y cam Datgan Diddordeb ac os bydd yn llwyddiannus, caiff cais manwl a llawn ei asesu ar sail meini prawf asesu'r gronfa. Bydd yn rhaid iddo fod yn gyson â'r strategaeth ac yn fasnachol hyfyw.

16. **Pwy fydd yn cysylltu â fi?**
    - Tîm Buddsoddi mewn Twristiaeth Llywodraeth Cymru ar CBTC@llyw.cymru neu alw 0845 010 8020.